Canllawiau Copïo

i Ysgolion yn y DU

Y Drwydded yn weithredol o 1 Ebrill 2008

I'w harddangos ger pob peiriant copïo
Mae trwydded Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint (CLA) wedi'i dyrannu sy'n caniatáu i'r ysgol hon lungopïo a sganio, o fewn terfynau sydd wedi'u diffinio'n glir, o lyfrau, cyfnodolion a chylchgronau.

Cwmpas y drwydded

- **Copïau Papur (gan gynnwys ar asetad)**

Caiff staff yr Ysgol wneud neu awdurdodi copïau papur i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, athrawon, aelodau eraill o staff a llywodraethwyr o ddeunydd a gyhoeddwyd yn y DU, yr Ariannin, Awstralia, Awstria, Gwlad Belg, Canada (gan gynnwys Cwebéc), Denmarc, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Groeg, Hong Kong, Gwlad yr Iâ, Iwerddon, yr Eidal, Jamaica, Lwcsembwrg, Mecsico, yr Iseldiroedd, Seland Newydd, Norwy, Singapore, De Affrica, Sbaen, Sweden, y Swistir, Taiwan Trinidad & Tobago ac UDA.

- **Copïau Digidol**

Caiff staff yr Ysgol wneud neu awdurdodi copïau papur i'w dosbarthu i'r disgyblion, rhieni, athrawon, aelodau eraill o staff a llywodraethwyr hynny y caniateir iddynt gael mynediad at rwydwaith diogel yr ysgol, drwy sganio neu ailddeipio deunydd a gyhoeddwyd yn y DU ac UDA yn unig. Caniateir defnyddio Copïau Digidol trwyddedig gyda byrddau gwyn digidol, Amgylcheddau Dysgu Rhithwir a meddalwedd cyflwyno (e.e. PowerPoint™) hefyd. Ni chaniateir golygu na thrin nac addasu Copïau Digidol mewn unrhyw fodd ar wahân i'r newidiadau hynny sy'n angenrheidiol i ganiatáu i ddefnyddwyr sydd ag anabledd (megis nam gweld) allu gweld y gwaith. Fodd bynnag caniateir i staff farcio copïau er mwyn ychwanegu pwyslais. Rhaid atgynhyrchu detholiadau sydd wedi'u hailddeipio gair am air, gan gynnwys yr holl atalnodi. Ni chaniateir y defnydd o feddalwedd adnabod nodau'n optegol (OCR) dan y Drwydded.

Dylid nodi manylion yr awdur, y teitl, y cyhoeddwr ac ISBN/ISSN ar waelod pob tudalen er mwyn cydnabod ffynhonnell pob detholiad o lyfrau, cyfnodolion a chylchgronau a hefyd er mwyn gallu adrodd i'r CLA i bwrpas dosbarthu wrth gymryd rhan mewn arolygon. Os nad yw copi sydd wedi'i sganio eisoes yn cynnwys manylion y ffynhonnell, rhaid ychwanegu taflen neu dudalen eglurhaol sy'n cynnwys gwybodaeth am ddeiliad yr hawliau.

Gellir gwneud cynifer o gopïau ag sydd eu hangen i bob pwrpas penodol, ond ni chaniateir gwneud mwy na'r nifer sydd ei angen i sicrhau fod pob aelod o'r dosbarth, a'r athro, yn gallu cael copi, ac yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau canlynol:

- **un bennod gyflawn** o lyfr
- **un erthygl o** gyfnodolyn neu gylchgrawn
- **un stori fer neu gerdd nad yw dros 10 tudalen o hyd** o antholeg
- **yn achos adroddiad a gyhoeddwyd o drafodion barnwrol, adroddiad cyflawn un achos**
- **neu 5% o'r cyhoeddiad, os yw'n fwy na'r uchod**

Yr hyn nad yw'r drwydded yn ei gwmpasu

Unrhyw ddeunydd a ddisgrifir yn y Rhestr o Gategorïau a Gweithiau sydd wedi'u Heithrio, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Cerddoriaeth wedi'i argraffu (gan gynnwys y geiriau)
- Papurau newydd
- Mapiau, siartiau a llyfrau tablau
- Rhai cyrsiau gohebol
- Cyhoeddiadau sy'n cynnwys rhybudd penodol nad ydynt i gael eu copïo dan drwydded CLA
- Papurau arholiad sydd wedi'u cyhoeddi a phrofion sydd wedi'u cyhoeddi
- Llyfrau gwaith, cardiau gwaith a thaflenni aseiniad
- Emynau
- Deunydd addysgu a baratowyd yn breifat
- Cyhoeddiadau â 'Chaniatâd Copïo' (a adwaenir weithiau fel 'llungopiadwy')
- Yr holl waith a gyhoeddwyd gan gyhoeddwyr penodol o UDA
- Holl weithiau Dylan Thomas
- Holl weithiau J.D Salinger

(Noder: gall rhai o'r uchod fod o fewn cwmpas trwyddedau eraill a ddyrannwyd)

Dylid arddangos y rhestr o Gategorïau a Gweithiau sydd wedi'u Heithrio nesaf at bob peiriant copïo ac mae ar gael ar wefan CLA (www.cla.co.uk). Rhaid ceisio caniatâd ar gyfer copïo eitemau sydd wedi'u heithrio neu nifer sydd yn uwch na'r cyfyngiadau a bennir (gan gynnwys gwneud copïau digidol o ddeunydd a gyhoeddwyd y tu allan i'r DU neu UDA) oddi wrth y deiliad hawlfraint (cyhoeddwr, awdur neu artist) ar bob achlysur.

Bwriedir y ddogfen hon fel canllaw yn unig ac nid yw'n cymryd lle telerau'r Drwydded eu hunain. Pe bai anghydfod yn codi rhwng y ddau, y Drwydded fyddai'r awdurdod terfynol.

Yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint Cyf

Prif Swyddfa
Saffron House, 6-10 Kirby Street, Llundain EC1N 8TS
Ffôn 020 7400 3100 Ffacs 020 7400 3101 Ebost cla@cla.co.uk
www.cla.co.uk

CLA yn yr Alban
CBC House, 24 Canning Street, Caeredin, EH3 8EG
Ffôn 0131 272 2711 Ffacs 0131 272 2811 Ebost
clascotland@cla.co.uk